# MEMORANDWM I BWYLLGOR ARCHWILIO CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## GWRANDAWIAD AR GOLEG GWENT: DYDD IAU 15 MEHEFIN

### CYFLWYNIAD

Yn y llythyr yn gofyn i Brif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (CCABC) roi tystiolaeth mewn cyfarfod o Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad, cynigiwyd cyfle i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig cyn y cyfarfod.

Yn y papur hwn nodir y camau a gymerwyd gan CCABC, yn dilyn y problemau yng Ngholeg Gwent (Coleg Trydyddol Gwent ynghynt), i gryfhau llywodraeth a rheolaeth mewn sefydliadau addysg bellach ac i wella trefniadau'r Cyngor Cyllido ar gyfer monitro'r sefydliadau.

Mae strwythur y papur yn dilyn y strwythur a ddefnyddiwyd yng Nghyfnod y Trysorlys ar 2il Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 1999-2000 - *Financial Management & Governance at Gwent Tertiary College.*

### *Ar y problemau yn y Coleg - casgliadau (i) i (iv) y PCC*

- Cyhoeddwyd arweiniad newydd ar brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop gan y Cyngor Cyllido ym mis Chwefror 2000.

### *Ar yr hyn a aeth o'i le - casgliadau (v) i (xvi) y PCC*

- Cafodd cytundebau cyflogaeth model, yn cynnwys darpariaethau prawf safonol, ar gyfer Prifathrawon a deiliaid swyddi uwch eraill, eu cyhoeddi gan Gymdeithas y Colegau - Mehefin 2000.

- Bydd Cymdeithas y Colegau yn rhoi arweiniad i'r sector ar arfarnu perfformiad a chyflog yn ôl perfformiad - Medi 2000.

- Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid neu swyddog cyfwerth yn awr yn aelod o'r tîm rheoli uwch ym mhob corfforaeth AB ond un yng Nghymru.

- Cyflwynodd y Cyngor Cyllido drefn Digwyddiadau Adroddadwy ym mis Mai 1999. Mae hon yn gofyn i sefydliadau roi gwybod i'r Cyngor am newidiadau mewn staff allweddol, cynlluniau ailstrwythuro a phrosiectau mawr eraill sydd yn yr arfaeth.

- Rhoddwyd seminarau i lywodraethwyr ac uwch-reolwyr ar Reolaeth Ariannol gan PriceWaterhouseCoopers ar ran y Cyngor Cyllido ym mis Mawrth a mis Ebrill 2000. Roedd hyn yn rhan o gyfres o 27 seminar a drefnwyd gan CCABC o fewn ei Raglen Datblygu Llywodraeth a Rheolaeth dros y cyfnod Hydref 1999 hyd Mai 2000.

- Cyflwynwyd cyfarfodydd adolygu sefydliadol i'w cynnal bob tymor gan y Cyngor Cyllido - Ebrill 1999.

- Mae'r Cyngor Cyllido wedi datblygu Canllaw newydd i Lywodraethwyr a Deunyddiau Hyfforddi Llywodraethwyr ar y cyd â Chyngor Cyllido Addysg Bellach Lloegr (CCABLl) - i'w cyhoeddi yn yr Haf 2000.

- Cryfhawyd trefniadau monitro iechyd ariannol y Cyngor Cyllido drwy ofyn am wybodaeth fanylach mewn dychwelebau canol-y-flwyddyn, drwy estyn y system o dystysgrifau archwilio a thrwy gyflwyno cyfarfodydd rhwng staff cyllid uwch y Cyngor Cyllido a rheolwyr y colegau.

- Mae adolygiadau archwilio'r Cyngor Cyllido bellach yn cynnwys:

  ⇒ gofyniad i weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â gwendidau sylfaenol

  ⇒ adolygiadau dilynol mynych os oes pryder ynghylch maint neu natur y gwendidau

  ⇒ ymweliad dilynol cynlluniedig o fewn 9 mis ar ôl y prif ymweliad i gael tystiolaeth bod argymhellion wedi'u gweithredu.

- Mae'r cyfrifoldeb a ddirprwywyd yn ffurfiol i'r Cyngor Cyllido dros fonitro safonau llywodraeth a rheolaeth bellach yn cael ei gefnogi gan Fframwaith Sicrhau - bydd y Datganiad Sicrhau blynyddol cyntaf yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Mehefin 2000.

- Cyhoeddodd y Cyngor Cyllido Gôd Arfer Archwilio diwygiedig - Awst 1999.

- Mae arweiniad i sicrhau digonolrwydd y gwaith a wneir gan archwilwyr allanol colegau yn sylfaen ar gyfer eu barn bod cyllid wedi'i ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd bron wedi'i gwblhau - i'w cyhoeddi yn Awst 2000

- Mae staff Deloitte & Touche yn cydweithredu â'r Cyngor Cyllido i sicrhau gwaith o safon briodol.

***Ar yr hyn a wnaed i wneud pethau'n iawn - casgliadau (xvii) i (xx) y PCC***

- Mae'r Cyngor Cyllido yn cyllido cynllun Consortiwm Caffael yn cynnwys 8 coleg.

***Ar y goblygiadau ehangach ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru - casgliadau (xxi) i (xxv) y PCC***

- Mae gan bob sefydliad bellach bolisi achwyn ac mae'r mwyafrif o'r polisïau hyn yn weithredol ac yn cynnwys llwybr allanol i Achwynwyr - fel rheol i archwilwyr, CCABC neu'r Cynulliad.

- Dyrannwyd cyllid penodol i helpu colegau i fynd i'r afael â gwendidau. Cronfa Gymorth ar gyfer Llywodraeth a Rheolaeth: £405,000 ym 1999-00.

- Darparwyd cyllid i hwyluso gwelliannau mewn llywodraeth a rheolaeth drwy brojectau arloesol a chydweithiol. Cronfa Gynlluniau ar gyfer Llywodraeth a Rheolaeth: £250,000 ym 1999-00.

- Cafodd Offerynnau Llywodraeth Corfforaethau AB eu haddasu ym mis Hydref 1999 - gall y Cyngor Cyllido yn awr enwebu dau lywodraethwr a gofyn bod sylwebyddion yn mynychu cyfarfodydd corfforaethau.

- Cafodd Erthyglau Llywodraeth Corfforaethau AB eu haddasu ym mis Hydref 1999. Ceir darpariaeth yn awr ar gyfer atal unrhyw aelod staff o'i swydd gyda neu heb gyflog. Estynnwyd y ddarpariaeth ar gyfer diswyddo yn y fan a'r lle i'r holl staff uwch.

- Mae clercod i gyrff llywodraethu i gael eu cyflogi gan y cyrff llywodraethu gyda chymeradwyaeth CCABC. Mae gofyn i glercod gydymffurfio â gofynion a osodir gan CCABC.

- Mae rhaglen hyfforddi llywodraethwyr, sy'n cynnwys modwl sefydlu, yn cael ei datblygu, gan ddefnyddio'r Deunyddiau Hyfforddi Llywodraethwyr sy'n cael eu paratoi ar y cyd â CCABLI - i'w lansio yn yr Haf 2000.

- Mae corfforaethau i ddatguddio gwariant ar deithiau tramor a lletygarwch yn eu cyfrifon blynyddol o 1999/00.

**Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru**

**7 Mehefin 2000**